



**Ymddiriedolaeth Treftadaeth Gymunedol Porthaethwy**  
**Menai Bridge Community Heritage Trust**

Rhif Elusen / Registered Charity Number 1082013  
Rhif Y Cwmni / Limited Company Number 3649982

Canolfan Thomas Telford  
Ffordd Mona  
Porthaethwy  
Ynys Môn  
LL59 5EA

ffon/telephone 01248 715046  
e-bost/e-mail [info@menaiheritage.org.uk](mailto:info@menaiheritage.org.uk)  
[www.menaibridges.co.uk](http://www.menaibridges.co.uk)

Thomas Telford Centre  
Mona Road  
Menai Bridge  
Anglesey  
LL59 5EA

**Apwyntiad Ymgynghorwr Datblygiad Amgueddfa,  
Glanfa'r Tywysog, Porthaethwy, Ynys Môn**

**Briff y Prosiect**

**Mae YTGP yn yn bwriadu apwyntio ymgynghorwr prosiect i baratoi cynllun busnes ac i gynorthwyo'r ymddiriedolwyr i ddatblygu a chynnal dibenion yr Ymddiriedolaeth.**

***Yr Ymddiriedolaeth a'i Weithgareddau***

Mae Ymddiriedolaeth Treftadaeth Gymunedol Porthaethwy (YTGP) yn gofalu am yr amgueddfa a'r ganolfan ymwelwyr sydd wedi ei lleoli yng Nghanolfan Telford ym Mhorthaethwy, Ynys Môn. Sefydlwyd YTGP ym 1997 gyda'r bwriad o ddiogelu'r creiriau hanesyddol a hybu'r hanes sydd ynglŷn â'r ddwy bont eiconic sy'n croesi'r Fenai. Ymhellach, rydym yn codi ymwybyddiaeth o ecoleg y Fenai ac yn cynnal canolfan lle gall pobol o bob oed ddod i ddysgu am y fro tra'n hybu ysbryd o falchder yn y gymdogaeth.

Ein nod yw creu a datblygu amgueddfa a menter gymdeithasol sy'n gydnabyddedig yn rhyngwladol, gan ddathlu a throsglwyddo hanes y Fenai a'i phontydd ynghyd â'r gymdeithas a dyfodd o'i chwmpas. Ein dymuniad yw ysbrydoli ymwelwyr a phobol leol ynghyd â chreu posibiladau o waith tymor hir.

Rheolir YTGP gan grŵp o ymddiriedolwyr sy'n cyflogi rheolwr gweinyddol rhan amser tra'n dibynnu ar gefnogaeth nifer o wirfoddolwyr. Yn ystod 2019/20 galluogodd nawdd gan Raglen Lles Gymunedol Llywodraeth Cymru a chynllun Grant Capitol Trawsnewid Amgueddfeydd, Archifdai a Llyfrgelloedd i ni i gychwyn ar daith sydd wedi bod yn uchelgais YTGP ers amser. Rydym yn gobeithio adleoli yr amgueddfa i safle ar lan y Fenai ym Mhorthaethwy a elwir yn Rodfa'r Tywysog.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu ein hamgueddfa gyda rhaglen lawn o weithgareddau gan gynnwys gweithdai i ysgolion sy'n anelu at gyflwyno egwyddorion peirianeg i bobol ifanc. Mae'n rhaglen o ddigwyddiadau a darlithoedd yn denu cynulleidfaoedd lleol yn ogystal ag ymwelwyr o bell. Rydym yn cynnig rhaglen o deithiau gyda arweinwyr dwyieithog sy'n canolbwyntio ar y pontydd a'r ardal leol ac mae gennym arweinwyr sy'n gymwysedig i gymhwysder Lefel 2 a ddyfeiswyd yn benodol i'r Ymddiriedolaeth ym 2009.

Rydym yn ricriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr i fod yn gyfrifol am ein casgliad, i hybu a rhedeg ein weithgareddau ac i ddatblygu creffttau a gwybodaeth. Yn ddiweddar fe lawnsiwyd rhaglen gyhoddiadau sy'n cynnwys amryw o lyfrau llwyddiannus gan

gynnwys un sydd wedi ei anelu at bobol ifanc i geisio creu diddordeb mewn peirianeg ynddynt. Er ein bod yn credu'n gryf mewb hybu ysbryd a balchder lleol yn y dref a'r ardal o'i chwmpas rydym hefyd yn ymwybodol o'r gynulleidfa ehangach o ganlyniad i'r dreftadaeth unigryw sydd gennym yn y pontydd.

Rydym yn cysylltu gydag oddeutu 2700 o aelodau trwy'n tudalen Facebook "Menai Bridge Memories" ac yn ystod y 12 mis cyn y cyfnod clo, trwy ddatliadau "drop in" cyhoeddus, bu i ni dderbyn dros 150 o gyfraniadau i'n casgliad.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydweithio mewn partneriaeth ffurfiol gydag ysgolion lleol, Prifysgol Bangor a grwpiau ieuengtid lleol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymfalchio yn ei pholisi dwyieithog ac rydym yn gweithredu ethos dwyieithog bob amser. Rydym yn ffodus fod ganddom nifer o ymddiriedolwyr dwyieithog sy'n ganolog i'n holl weithgareddau. Roedd y llyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer pobol ifanc yn ddwyieithog gyda'r nod o greu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cwricwlwm STEM.

### ***Ein Adleoliad Arfaethedig***

Mae wedi bod yn uchelgais gan yr Ymddiriedolaeth i adleoli arddangosfa Treftadaeth Menai i'r cei a'r warws ar Rodfa'r Tywysog ac i'r perwyl hwnnw mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwmo mewn partneriaeth gyda Menter Môn i atgyweirio ac adfywio'r safle.

Mae'r prosiect arfaethedig wedi datblygu o gydweithio gyda'r gymdeithas leol er mwyn diwallu anghenion lleol ac mae wedi golygu miloedd o oriau o waith gwirfoddol. Bydd y prosiect yn creu canolbwynt newydd i dwristiaith yn y dref ac yn ennyn twf economeg ynghyd ag undod cymdeithasol tra'n cyfranu at adfywiad o'r glannau trwy wella'r mynediad ac ychwanegu at yr amgylchfyd mewn ardal o gadwraeth penodedig.

Mae'r safle ar lan y Fenai mewn rhan fu'n ardal forwrol ar un adeg, lle mae buddsoddiad sylweddol wedi ei wneud yn ddiweddar ac sydd wedi creu swyddi newydd.

Er hyn mae gwaith eto i'w wneud cyn bydd y safle yn barod i'w throsglwyddo.

### ***Y Swydd***

Mae'r pandemig Covid 19 wedi achosi oedi yn y datblygiad ac mae'r Ymddiriedolwyr angen cymorth proffesiynol i barhau gyda'r prosiect, i gyflawni gofynion y noddwyr a chydymffurfio gyda rheolau safon amgueddfeydd. Bydd yn ofynnol i'r ymgynghorwr prosiect weithio gyda'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu'r dibenion a dylai fod yn hyblyg yn ei ddull/dull o drin y dasg yn ogystal â bod yn ymwybodol fod rhai elfennau heriol yn dal i fod cyn y gellir cwblhau'r trosglwyddiad i'r safle newydd.

### ***Y Prosiect***

Bydd y prosiect yn cyflawni'r strategaeth gynhwysfawr i wireddu gorchwylion yr Ymddiriedolaeth, un ai yn Rhodfa'r Tywysog neu yn y lleoliad presennol yng Nghanolfan Telford os na ellir cyflawni'r prif nod.

Yn y gobaith y bydd Prosiect Rhodfa'r Tywysog yn llwyddo disgwylir i'r Ymgynghorwr gefnogi'r Ymddiriedolwyr yn y broses o adleoli'r amgueddfa bresennol o Ganolfan

Thomas Telford i Rodfa'r Tywysog (Ile gellir cael mynediad corfforol a deallusol gwell i'r amgueddfa a'r adeilad). Bydd hyn yn cynnwys:

- Troi cyn warws hanesyddol yn le sy'n ferw o brysurdeb cymdeithasol
- Cynllunio deongliadol, dylunio cysyniadol a threfnu ail arddangos casgliad yr amgueddfa gan ystyried blaenoriaethau mynediad yr arddangosfa newydd i'r defnyddiwyd presennol a'r rhai newydd
- Creu lle cymunedol fydd yn ychwanegu at werth yr hyn a gynigir i'r gymuned yn barod gan YTGP

### ***Cyflenwi'r Gytundeb***

Prif flaenoriaeth yr apwyntiad fydd i gefnogi ymddiriedolwyr YTGP i baratoi cynllun busnes realistig i'r amgueddfa fydd yn:

- Dangos y byddwn yn gallu cyfarfod y costau presennol ynghyd â'r costau yn y dyfodol gan gynnwys amcangyfrif realistig o'r twf mewn nifer yr ymwelwyr a ddisgwylir o ganlyniad i ddatblygiad yr amgueddfa
- Cynnwys atodiad sy'n rhestru manylion o'r grantiau a dderbyniwyd yn barod
- Yn cydymffurfio gyda Safonau Gwarantu Amgueddfeydd

### ***Yn y senario y bydd y trosglwyddiad lleoliad yn llwyddiannus, bydd yr ymgynhorwr yn:***

- Ymgynghori gyda'r pensaer i sicrhau fod y cynllun a gytunwyd arno yn cydymffurfio gyda gofynion yr amgueddfa a'r noddwyr
- Cyfranu i ddarganfod elfennau o'r prosiect fuasai'n atyniadol i gefnogaeth gan noddwyr eraill ac i baratoi ceisiadau priodol
- Cadw cyswllt rheolaidd gyda Ymddiriedolwyr YTGP trwy amserlen a mynychu cyfarfodydd rheolaidd un ai yn rhithiol neu wyneb yn wyneb yn unol â gofynion rheolau Covid 19 yng Nghymru
- Cefnogi ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr eraill i gydnabod yr angen a dysgu'r sgiliau angenrheidiol i gynnal y prosiect tu hwn i'r cyfnod cytundebol

### ***Yn y senario y bydd y trosglwyddiad ddim yn digwydd bydd yr ymgynhorwr yn:***

Cefnogi'r Ymddiriedolwyr i

- Ymgymeryd adolygiad stradegol a datblygu gweledigaeth newydd i ddyfodol yr amgueddfa
- Cyfranu i ddarganfod prosiectau fuasai'n atyniadol i gefnogaeth gan noddwyr eraill ac i baratoi ceisiadau priodol
- Cefnogi ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr eraill i gydnabod yr angen a dysgu sgiliau angenrheidiol

### ***Meini prawf hanfodol i'r ymgeisydd llwyddiannus***

- Profiad o brosiectau adeiladu/addasu amgueddfeydd (gan gynnwys ymwybyddiaeth o ofal am gasgliadau ac anghenion cadwraethiaethol mewn prosiectau adeiladu amgueddfeydd)
- Profiad o baratoi Cynlluniau Busnes
- Profiad o adolygiadau strategol/cynllunio ar gyfer elusennau

- Profiad o weithio gyda amgueddfeydd bach cymunedol sy'n cael cefnogaeth gwirfoddolwyr
- Profiad o baratoi ceisiadau llwyddiannus am nawdd i brosiectau amgueddfeydd

### ***Meini prawf dymunol i'r ymgeisiwr llwyddiannus***

- Cymwysterau ym maes amgueddfeydd
- Y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg

### ***Pethau Ymarferol***

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cysylltu naill ai trwy Gadeirydd yr Ymmdiriedolwyr, neu ei dirprwy enwebedig, o ddydd i ddydd. Mae'n bosibl y bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gysylltu'n uniongyrchol gyda noddwyr y prosiect.

Bydd cyfnod y gytundeb rhwng Ebrill 2021 a Medi 2021 ond bydd gofyn am gyfraniad penodol i'r cynllun busnes erbyn canol Mai 2021.

Uchafbwynt y ffi am y gwaith gan gynnwys yr holl gostau a threuliadau fydd **£12,000**.

Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno cais manwl yn egluro sut yr ydynt yn bwriadu delio â'r briff gan nodi sawl diwrnod y byddant yn disgwyl ei wario ar bob rhan gan roi dadansoddiad o'r gwariant disgwylidig. Dylid hefyd gynnwys CV gyfredol gan gynnwys cymwysterau a phrofiad perthnasol.

**Dylid e-bostio eich ceisiadau i [info@menaiheritage.org.uk](mailto:info@menaiheritage.org.uk) erbyn hanner dydd Dydd Gwener 26 o Chwefror 2021**